

Ken Skates AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

17 Awst 2018

Annwyl Ysgrifennydd Cabinet

### **Gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel yng Nghymru**

Yn dilyn y ddadl ddiweddar yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad y Pwyllgor, ysgrifennaf atoch i ofyn am ymateb i nifer o faterion sydd heb eu datrys. Cawsom ein siomi gan y diffyg manylion ac ymgysylltiad ystyrion â'n hargymhellion yn eich ymateb ysgrifenedig i'r adroddiad. O ganlyniad, cododd yr Aelodau nifer o faterion yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn yr oeddent yn teimlo nad oeddent wedi cael eu hateb yn eich ymateb.

Fodd bynnag, yn eich ymateb yn y ddadl, roedd diffyg trafodaeth fanwl ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'n hargymhellion. Gofynnodd Aelodau ar draws y Siambr am ymateb ar wyth pwynt penodol, ac ni wnaethoch ateb yr un o'r rhain yn eich ymateb i'r ddadl. Roedd hyn yn cynnwys nifer o gwestiynau y tynnais sylw atynt. Felly, byddwn yn ddiolchgar i gael y canlynol:

- Eglurder ynghylch pam y mae Llywodraeth Cymru yn credu nad oes angen strategaeth benodedig ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac y byddai strategaeth o'r fath yn atal dull cyfannol wrth fynd i'r afael â materion cymhleth. Fel y byddwch yn ymwybodol o argymhelliad 1 yn ein hadroddiad ac o'n hadroddiad ar Gymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd, rydym yn



credu'n gryf bod y dystiolaeth sy'n sylfaen i'n hadroddiadau yn dangos bod angen am strategaeth benodedig i helpu darparu cyfeiriad clir, gan gynnwys dangosyddion perfformiad.

- A fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnal dadansoddiad o'r risgiau a'r manteision yn sgil datganoli trefniadau gweinyddu Credyd Cynhwysol.
- Eglurder ynghylch pam na dderbyniwyd argymhelliad 2 yn llawn o ystyried pwysigrwydd amserlenni clir, amcanion cyflawni a cherrig milltir i sicrhau cyflawniadau effeithiol yn y cynlluniau gweithredu economaidd a chyflogadwyedd.
- Manylion pellach ynghylch sut y bydd y strategaeth leoli yn ail-leoli swyddi mewn ardaloedd yng Nghymru a fydd yn colli cyllid strwythurol yr UE, ac a oes unrhyw gynlluniau i adolygu'r strategaeth.
- Ymrwymiad i gyhoeddi cynnwys, cylch gorchwyl a manylion cyfarfodydd y Bwrdd Gwaith Teg, a'r amserlen ar gyfer gwneud hynny. Fe wnaethoch nodi yn eich ymateb ysgrifenedig i argymhelliad 17 y gellir sicrhau bod yr wybodaeth ar gael, ond ni wnaethoch nodi a wneir na phryd y gwneir hynny.
- Eglurder ynghylch a fydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ymgyrch eang a phellgyrhaeddol i annog sectorau i dalu'r cyflog byw gwirfoddol. Nid oedd yr ymateb ysgrifenedig ond yn cynnwys manylion ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'i wneud mewn perthynas â'r cyflog byw gwirfoddol, ac ni ymatebwyd i'r camau gweithredu y galwyd amdanynt yn yr argymhelliad.
- Ymrwymiad i ddarparu ymatebion manwl i argymhellion 14-16 yn dilyn cyhoeddiad yr adolygiad caffael.
- Ymrwymiad i ddarparu ymatebion manwl i argymhellion 18, 20, 21 a 22 yn dilyn cwblhau gwaith y Comisiwn Gwaith Teg y cyfeirir ato yn eich ymateb.

O ran y ddau ymrwymiad uchod, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod pryd y gallwch ddarparu'r ymatebion manwl hyn.



Gofynnaf hefyd am ymateb i'r cwestiynau a ganlyn:

- Eglurder ynghylch y Comisiwn Gwaith Teg, gan gynnwys pryd y bydd yn cyflwyno adroddiad, sut y bydd yn mynd o gwmpas ei waith, sut y mae'n bwriadu ymgysylltu â'r cyhoedd/gweithwyr, ac a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal unrhyw waith cyn i'r Comisiwn gyflwyno ei adroddiad;
- Manylion y canlyniadau a ddaeth yn sgil y Symposiwm a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf. Roedd eich ymateb i argymhellion 11 a 12 yn ein hadroddiad yn rhoi llawer o bwyslais ar y Symposiwm hwn, gan gyfeirio at bedwar sector yr economi sylfaenol.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu eich ymateb erbyn xx xx.

Yn gywir



John Griffiths AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.



We welcome correspondence in Welsh or English.

